


Gosod blychau ystumod

Gwnewch gartref i ystumod yn eich gardd a gosodwch flychau ystumod ar goed mawr neu adeiladau. Byddwch yn ymwybodol bod ystumod wedi eu hamddiffyn felly dylech osgoi coed ac adeiladau y dymunwch wneud rhywfaint o waith arnyd nhw yn y dyfodol os yn bosib.

1. Gallwch brynu blychau o ansawdd da gan lawer o gyflenwyr, neu os ydych yn teimlo'n greffus gallwch wneud eich rhai eich hun gan ddefnyddio'r mesuriadau a geir yma. Gwnewch yn siwr eich bod yn defnyddio pren heb ei drîn ag iddo wead bras i roi rhywbeth i'r ystumod gydio ynddo.

2. Gosodwch y blychau 3-5m uwch law'r ddaear, ar goed neu dai, mewn ychydig o heulwen gan osgoi'r prif wyntoedd. Mae sicrhau llwybr hedfan clir yn syniad da i ystumod.

Pediwch â phoeni os na chaiff eich blwch ystumod ei ddefnyddio'n syth, mae ystumod yn ddeisol iawn a byddant yn symud o gwmpas yn ôl yr adeg o'r flwyddyn.



Rheoli dolydd

Os yw eich dôl flodau gwyllt nawr yn ei hail flwyddyn neu'n hŷn, bydd angen toriad ym mis Awst neu Fedi. Torwch hi'n uchder byr (rhwng 5-10cm), yna gadewch y toriadau yno am ddiwrnod neu ddau i adael i'r hadau syrthio i'r pridd. Mae wedyn yn hanfodol bod yr holl doriadau yn cael eu codi i atal maethion rhag cronni yn y pridd. Gallwch gompostio'r rhain wedyn.

Planhigion sy'n blodeuo ym mis Awst

Tafod Y Fwch
Tamaid Y Cythraul
Ffenigl
Plucen Felen



Gosod casgen ddŵr

Mae casgenni ddŵr yn cael eu defnyddio i storio ddŵr o doeau adeiladau yn dilyn glaw. Maent yn lleihau faint o ddŵr sy'n mynd i'r system ddŵr yn ystod stormydd, sy'n lleihau'r gwasgedd ar ein hafonydd lleol. Maent hefyd yn rhoi cyflenwad am ddim o ddŵr i'r ardd. Beth am osod un ar eich tŷ neu sied?

Os carech chi geisio gwneud rhywbeth ychydig yn fwy heriol, beth am greu gardd law o'r biben ddraen yn hytrach na chasgen ddŵr? Cysylltwch â'ch Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt am fwy o wybodaeth.

Gwyllo ieir fach yr haf

Awgrymiadau arolwg: Planwch blanhigion sy'n llawn neithdar yn eich gardd ac arhoswch i weld beth ddaw draw am dro.



Mantell Paun



Mantell Dramor



Trilliw Bach



Mantell Goch



Mantell Garpiog



Glesyn Cyffredin



Gwyn Blaen Oren

Unrhyw glöynnod byw eraill:

